Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

AFA CYMRU
association for fostering and adoption
cymdeithas ar gyfer maethu a mabwysiadu

SEFYDLOGRWYDD CYNNAR CYMRU

Gwybodaeth i Rieni

Rydym yn eich cynghori'n gryf i drafod y daflen hon gyda'ch cyfreithiwr, os oes un gennych, neu gyda gweithiwr cymdeithasol eich plentyn, a fydd yn gallu siarad â chi am y math hwn o leoliad maethu. Rhoddir gwybodaeth bellach i chi ac i'ch cyfreithiwr os oes angen.

BETH YW SEFYDLOGRWYDD CYNNAR CYMRU?

Os nad yw plentyn yn gallu byw gyda'i deulu ac mae wedi cael ei symud am ba reswm bynnag, ystyrir
Sefydlogrwydd Cynnar Cymru ar ei gyfer. Efallai y caiff ei leoli gyda gofalwyr Sefydlogrwydd Cynnar Cymru tra bod yr holl opsiynau'n cael eu harchwilio yn y llys. Mae hwn yn lleoliad maethu gyda theulu a gymeradwywyd fel gofalwyr maeth ac fel rhieni mabwysiadol.

Ydy fy mhlentyn yn mynd i gael ei fabwysiadu?

Dim ond y llys sy'n gallu penderfynu beth fydd yn digwydd i'ch plentyn, ac a fydd yn cael ei fabwysiadu ai peidio. Mae'r teuluoedd Sefydlogrwydd Cynnar Cymru wedi ymrwymo i ailuno'r plentyn gyda'i rieni os yw hyn yn bosibl. Ond, os yw'r llys yn penderfynu nad yw'ch plentyn yn gallu dychwelyd atoch chi neu fyw gydag aelod arall o'ch teulu, mae'r gofalwyr hyn yn barod i roi sicrwydd lleoliad mabwysiadu i'ch plentyn heb i'ch plentyn orfod symud eto.

Beth mae hyn yn ei olygu i fi?

Er eich bod wedi cael y daflen hon, nid yw'n golygu bod penderfyniad wedi cael ei wneud i leoli plentyn gyda gofalwyr Sefydlogrwydd Cynnar Cymru, ond mae'n golygu y bydd yn cael ei ystyried fel opsiwn i'ch plentyn os nad yw'ch plentyn yn gallu byw gyda chi, ac mae'n bwysig eich bod yn gwybod hyn cyn gynted â phosibl.

Mae yna lawer mwy o wybodaeth ar gael am Sefydlogrwydd Cynnar Cymru, yn ogystal â chymorth i sicrhau eich bod yn deall beth sy'n digwydd. Os oes amser yn dod pan fydd arnoch angen cyfreithiwr, rydym yn eich cynghori'n gryf i drafod y math hwn o leoliad maethu gyda'ch cyfreithiwr.